Cenn@d

MEHEFIN 25 2025 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 226

# O'r ddinas leiaf i'r ddinas fwyaf – cynhadledd flynyddol Undeb Bedyddwyr Cymru, Mehefin 2025

Aeth blwyddyn heibio ers ymweliad y teulu Bedyddiedig ag ardal Tyddewi ym Mhenfro, lle cynhaliwyd y cyfarfodydd blynyddol wrth groesawu'r Parchg Geraint Morse yn Llywydd yr Undeb. Diolchwn iddo am ei dymor gwasanaeth, wrth iddo yntau yn ei dro drosglwyddo'r Llywyddiaeth i ddwylo medrus y Parchg Rob Nicholls, gweinidog Eglwys Gymraeg Canol Llundain, sy'n eglwys unedig gan ddwyn yr Annibynwyr a'r Bedyddwyr yn y ddinas ynghyd. Union flwyddyn yn ôl roeddem yn nhawelwch ardal y Groes-goch y tu allan i Dyddewi; eleni, roeddem tua 200 metr o Oxford Circus yng nghanol Llundain, gyda'i holl rialtwch a'i gyffro. Eto, braf oedd cael encilio i dawelwch y capel hardd ac urddasol, ac yno, dros gyfnod o ddau ddiwrnod, cafwyd cyfarfodydd hynod fendithiol. Cawn adroddiad llawn yn y rhifyn nesaf o *Cenn@d*, ond yn y cyfamser, dyma rannu rhai lluniau sy'n cyfleu ychydig o'r hyn a gafwyd yno.



Rob Nicholls yn arwyddo Beibl yr Undeb yng nghwmni Judith Morris, yr Ysgrifennydd Cyffredinol, wrth iddo gael ei sefydlu fel Llywydd yr Undeb ar gyfer 2025/26



Oedfa'r Llywydd, gyda'r criw a fu'n cymryd rhan. Cafwyd anerchiad arbennig gan y Parchg Rob Nicholls wrth iddo esgyn i'r gadair



Gethin Matthews, a gyflwynodd y ddarlith heddwch eleni, wrth ymyl cofadail y rhyfel yng nghapel Castle Street



Eglwys Gymraeg Canol Llundain, sef adeilad Castle Street, nid nepell o sgwâr prysur Oxford Circus

(parhad ar y dudalen nesaf)

Gwasanaeth arbennig i nodi pen-blwydd Cymorth Cristnogol yn 80 oed
**Tudalen 3**

Sasiwn Genhadol Chwiorydd y De 2025
**Tudalen 5**

Arddangos Beiblau prin yng Nghymru
**Tudalen 7**



Llywyddion yr Undeb: Geraint Morse, cyn-lywydd; Rob Nicholls, y llywydd presennol, a Rosa Hunt, yr is-lywydd etholedig



Deb Stammers, Eleri Lloyd Jones, Sian Elin Thomas, Gret Evans a Bonni Davies – cyflwyniad gwaith Mudiad y Chwiorydd



Y cynrychiolwyr a ddaeth ynghyd yn Llundain ar ran y gwahanol enwadau a mudiadau



Rob Nicholls, Eirian Wyn Lewis, Bill Davies, Denzil John, Rosa Hunt, Geraint Morse ac Aled Davies, a fu'n cymryd rhan yn oedfa'r weinidogaeth



Simeon Baker, Carwyn Greaves, Noa Evans, Rosa Hunt, Lucie Rhiannon a Rhys Llwyd – y criw gymerodd ran yn y cyflwyniad cenhadol



Natalie Morgan, Deb Stammers, Sian Elin Thomas a Hannah Smethurst yn arwain y defosiwn boreol

## SOULED OUT 25

Mae SOULED OUT 25 yn agosáu ac rydyn ni'n edrych ymlaen yn fawr at y 5 diwrnod gwych yma i ieuenctid 15+, myfyrwyr ac oedolion ifanc!

Mae SOULED OUT yn gyfle grêt ar ddiwedd yr haf i ddal i fyny gyda hen ffrindiau, cwrdd â phobl newydd a mwynhau gweithgareddau hwyl! Y prif sesiynau yw uchafbwynt SOULED OUT bob amser, wrth i ni addoli Duw, dysgu mwy amdano drwy'r Beibl a gwrando ar storïau anhygoel am beth mae Duw yn ei wneud ym mywydau pobl! Bydd rhai seminarau ymarferol hefyd i arfogi ac ysbrydoli, a grwpiau bach i'n helpu ni i feddwl drwy'r hyn rydyn ni'n ei glywed.

Bydd llwyth o bethau hwyl i'w gwneud hefyd! Dros y blynyddoedd, rydyn ni wedi mwynhau *inflatables* mawr, caffi acwstig, gemau pêl-droed, crefftau creadigol, *s'mores* rownd y tân a mwy!


Os oes digon o ddiddordeb, bydd bws mini yn cael ei drefnu am gost o £15 (£7.50 bob ffordd) i'r rhai sy'n teithio o'r de neu o'r canolbarth. Bydd gofal plant ar gael bob bore hefyd.

LLETY: Bydd pawb dan 18 oed yn aros yng Ngholeg y Bala, gydag eraill yn aros mewn canolfan gyfagos.

COST: £139 – Mae'r pris yn cynnwys y digwyddiad cyfan, bwyd, gweithgareddau a 5 noson o lety. (Os ydych am wneud eich trefniadau llety eich hun, neu am ddod am y dydd, cysylltwch â Choleg y Bala i gael y gost.)

Rydyn ni'n cyfri'r dyddiau, felly gwnewch yn siŵr eich bod yn ymuno â ni am haf i'w gofio yn SOULED OUT 25!

**Am fwy o wybodaeth am y gwaith yma gydag ieuenctid hŷn ac oedolion ifanc, cysylltwch â Meryl Walters yng Ngholeg y Bala am sgwrs ar 01678 520565 neu e-bostiwch:** [info@souledoutcymru.net](mailto:info@souledoutcymru.net)



# Gwasanaeth arbennig i nodi pen-blwydd Cymorth Cristnogol yn 80 oed

Daeth cefnogwyr, arweinwyr eglwysig, ysgolion a phartneriaid o bob cwr o'r byd ynghyd i nodi 80 mlynedd ers sefydlu Cymorth Cristnogol mewn gwasanaeth arbennig yn Abaty Westminster, Llundain. Ddydd Iau, 12 Mehefin, ymunodd tua 100 o bobl o Gymru â chynulleidfa o tua 2,000 o bobl i fyfyrio ar yr hyn mae'r mudiad wedi ei gyflawni dros yr wyth degawd diwethaf, gan roi diolch ac ailymrwymo i genhadaeth yr elusen i roi terfyn ar dlodi byd-eang. Ymhlith y rhai oedd yn cynrychioli eglwysi Cymru yr oedd y Gwir Barchedig Mary Stallard (Esgob Llandaf, yr Eglwys yng Nghymru), y Parchg Nan Powell-Davies (Eglwys Bresbyteraidd Cymru), y Parchg Rob Nicholls (Undeb Bedyddwyr Cymru), Dr Cynan Llwyd (Cytûn) a'r Parchg Andrew Sully (Cadeirydd Cymorth Cristnogol Cymru ac un o ymddiriedolwyr yr elusen). Ymunodd disgyblion ifanc o ysgolion Llandaf City, Wick a Marcross, ac Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru St Andrew's Major hefyd.

Sefydlwyd Cymorth Cristnogol yn 1945, pan ddaeth eglwysi ynghyd ar ôl yr Ail Ryfel Byd i ystyried sut y gallent helpu'r miloedd o ffoaduriaid yn Ewrop oedd angen lloches a chynhaliaeth sylfaenol, a hynny wrth i'w cymunedau eu hunain ddioddef effeithiau'r rhyfel.

Dros 80 mlynedd, fel asiantaeth cymorth a datblygiad swyddogol eglwysi Prydain ac Iwerddon, mae'r eglwysi wedi harneisio rhywbeth grymus: Grym Anorchfygol Gobaith, sef thema'r flwyddyn arbennig hon. Dros y blynyddoedd, mae Cymorth Cristnogol:

- wedi cynnal Wythnos Cymorth Cristnogol – y digwyddiad elusennol wythnos o hyd sydd wedi para hiraf
- wedi helpu i sefydlu sefydliadau byd-eang fel y Pwyllgor Argyfwng Trychinebau (DEC)
- wedi ymgyrchu yn erbyn apartheid ac o blaid newid ar faterion fel yr argyfwng hinsawdd, cyfiawnder dyled, a rhoi diwedd ar drais yn erbyn merched.

Roedd y gwasanaeth yn cynnwys pregeth gan y Parchg Athro Dr Jerry Pillay, Ysgrifennydd Cyffredinol Cyngor Eglwysi'r Byd, a darlleniad gan y Parchg Kate Botley. Cafwyd perfformiad prydferth o'r gân 'When I Needed a Neighbour', a ysgrifennwyd yn wreiddiol gan Sydney Bertram Carter yn 1965 i nodi 20 mlynedd Cymorth Cristnogol, wedi'i hail-greu gan y Parchg Ally Barrett, Ficer Great St Mary's, Eglwys Prifysgol Caergrawnt, a Marsha Morrison o'r Kingdom Choir. Perfformiwyd y gân gan y Kingdom Choir, ynghyd â Sacred, côr gospel o ddisgyblion o Ysgol Twyford yn Llundain, a'r canwr/gyfansoddwr Emmanuel Smith. A chan bwysleisio thema pen-blwydd 80 Cymorth Cristnogol, perfformiodd y bardd o Lundain Storm Cecile ei cherdd ddiweddaraf, 'The Unstoppable Power of Hope'.



Yr arweinwyr eglwysig oedd yn bresennol yn yr orymdaith yn Abaty Westminster

Yn ystod y dydd, rhannwyd tystiolaethau grymus gan ddau o bartneriaid Cymorth Cristnogol, sef Diana Gichengo, Cyfarwyddwr Gweithredol y Sefydliad Atebolrwydd Cymdeithasol (TISA), Kenya, a Bezwada Wilson, sefydlydd Safai Karmachari Andolan, India. Galwodd y ddau ar eglwysi'r Deyrnas Unedig i barhau i godi eu lleisiau'n ddewr dros gyfiawnder, i gefnogi mentrau eiriolaeth sy'n dod â newid parhaol drwy waith Cymorth Cristnogol, gan ddal gafael ar rym anorchfygol gobaith.

Yn ystod y diwrnod cynhaliwyd brecwast ar gyfer arweinwyr eglwysig yn Westminster a seremoni wobrwyo gwirfoddolwyr – seremoni 'Power of Hope Awards' y mudiad. Roedd Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru St Andrew's Major yn Ninas Powys yn fuddugol yn y categori Cymdogion Byd-eang Ifanc, a mynychodd Morgan a Tomas, dau o'r disgyblion, y seremoni i dderbyn y wobr ar ran yr ysgol.

Dywedodd Mari McNeill, Pennaeth Cymorth Cristnogol Cymru, 'Mae hi wedi bod yn fraint i ymuno â chymaint o'n cefnogwyr a gwirfoddolwyr o Gymru yn Westminster i nodi'r achlysur hanesyddol yma. Trwy addoliad, tystiolaethau grymus a thrafodaethau difyr, cawsom oll ein herio i ystyried sut mae *grym anorchfygol gobaith* yn ein galluogi i ofyn cwestiynau anodd ac i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol tlodi, megis yr argyfwng hinsawdd, gwrthdaro a systemau economaidd annheg. Ac i weithio tuag at fyd lle gall pawb ffynnu.'

Wrth edrych ymlaen at yr 80 mlynedd nesaf, cymerodd Cynan Llwyd ran yn y gweddïau yn ystod yr oedfa, gan ddweud: 'Rydym yn diolch i Dduw am rodd ei greadigaeth, a phopeth sydd yn rhoi gobaith inni ac yn ein cynnal

(parhad ar y dudalen nesaf)

## Cymorth Cristnogol yn 80 oed

*(parhad o dudalen 3)*

yn ein gwaith. Rydym yn gweddïo dros holl gefnogwyr Cymorth Cristnogol a'n partneriaid, ac y bydd y rhai sy'n gweithio yng nghanol peryglon ac anawsterau yn cael eu cynnal gan gariad Crist. Arglwydd, yn dy drugaredd. Clyw ein gweddi.'

## Cadwch y dyddiad

Bydd Cymorth Cristnogol Cymru yn nodi'r pen-blwydd yn 80 oed gyda Chyfarwyddwyr Cymorth Cristnogol a'r Bwrdd Ymddiriedolwyr yng Nghaerdydd nos Fercher, 17 Medi, ac mae croeso cynnes i bawb.

## Gwobrau Grym Gobaith: gwobr Cymdogion Byd-eang Ifanc i ysgol yn Ninas Powys



Tomas a Morgan o Ysgol St Andrew's Major yng nghwmni staff Cymorth Cristnogol yng Nghymru, Kate Botley ac Andrew Sully, cadeirydd Cymru

Yn dilyn gwasanaeth arbennig Cymorth Cristnogol yn Abaty Westminster ddydd Iau, 12 Mehefin, mynychodd rhai gwirfoddolwyr o Gymru de prynhawn a seremoni Gwobrau Grym Gobaith. Lansiwyd y gwobrau hyn i nodi pen-blwydd Cymorth Cristnogol ac i anrhydeddu ymroddiad ei chefnogwyr ledled y Deyrnas Unedig. Enillodd Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru St Andrew's Major, Dinas Powys, wobr y Cymdogion Byd-eang Ifanc, ac yr oedd Morgan a Tomas, cynrychiolwyr o'r ysgol, yno i dderbyn y wobr yn Church House, Westminster.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, bu'r ddau yn rhan o dîm o dywyswyr ifanc yn yr arddangosfa 'Creadigol dros Gyfiawnder Hinsawdd' yn Senedd Cymru ym mis Tachwedd, gan roi areithiau ysbrydoledig i dorf fawr o Aelodau'r Senedd a'r cyhoedd. Fe wnaethon nhw hefyd gynrychioli Cymru yn arddangosfa 'Creadigol dros Gyfiawnder Hinsawdd' ledled y Deyrnas Unedig yn Nhŷ'r Cyffredin ym mis Mawrth. Mae'r ysgol bellach yn gweithio tuag at ddod yn Gymdogion Byd-eang Cymru, cynllun achredu gan Gymorth Cristnogol Cymru a'r Eglwys yng Nghymru i gefnogi, cydnabod a dathlu'r hyn y mae ysgolion cynradd yng Nghymru yn ei wneud i ddarparu addysg fyd-eang dda ac i arfogi pobl ifanc i ddod yn ddinasyddion byd-eang gweithgar.

Dywedodd Ryan Trigg, sydd wedi arwain y fenter Creadigol dros Gyfiawnder Hinsawdd yn yr ysgol ac a fynychodd y gwasanaeth a'r seremoni, 'Nid tlws neu deitl yn unig yw'r wobr hon. Mae'n symbol – o wydnwch, o undod, ac o gred yn nerth posibilrwydd a gobaith. Mae'n cydnabod bod ein lleisiau'n cael eu clywed, y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth a'r tu hwnt i'r ysgol.'

Mynychodd prifathrawes yr ysgol, Jo Bayliss, y seremoni, a dywedodd ar ran yr ysgol: 'Rydym yn hynod ddiolchgar o dderbyn Gwobr Grym Gobaith – mae'n ennyd o wir falchder i'n dysgwyr a'n staff. Trwy'r prosiect "Creadigol dros Gyfiawnder Hinsawdd", defnyddiodd ein dysgwyr gelf, llythrennedd a delweddau digidol i archwilio a mynegi eu pryderon am yr argyfwng hinsawdd. Rhannwyd eu gwaith grymus nid yn unig yn ein hysgol ond hefyd yn y Senedd ac yn Nhŷ'r Cyffredin.

'Roedden ni'n arbennig o falch o Morgan a Tomas, a siaradodd yn glir, yn ddewr ac yn llawn gobaith ar ran pobl ifanc Cymru wrth gynrychioli ein hysgol yn Llundain. Mae eu harweinyddiaeth yn wir yn adlewyrchu ysbryd cymunedol ein hysgol gyfan.

'Yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru St Andrew's Major, rydym bob amser yn falch o sefyll ochr yn ochr â Chymorth Cristnogol. Mae'r bartneriaeth hon wedi'i gwreiddio'n ddwfn yng ngwerthoedd ein hysgol o dosturi, dinasyddiaeth fyd-eang, a ffydd ar waith.

'I ni, mae'n fwy na rhoi – mae'n ymwneud â dysgu, tyfu mewn dealltwriaeth, a bod yn rhan o rywbeth mwy na ni ein hunain. Mae gweithio gyda Cymorth Cristnogol yn caniatáu i'n cymuned ysgol gyfan fyw ein credoau mewn ffyrdd ystyrlon, gan helpu i adeiladu byd mwy teg a llawn gobaith i bawb.'

Dywedodd y Gwir Barchedig Mary Stallard, Esgob Llandaf: 'Roedd hon yn foment wych i Morgan a Tomas ac i Ysgol Gynradd St Andrew's Major! Mae'r wobr hon yn dystiolaeth enfawr o'r holl waith y mae'r dysgwyr a'r staff yn ei wneud i fynd i'r afael ag anghyfiawnder tlodi byd-eang ym mywyd yr ysgol, ond mae'n fwy na hynny hefyd. Mae'r wobr hon yn adlewyrchu'r hyn sy'n digwydd mewn cymaint o'n hysgolion ar draws Esgobaeth Llandaf ac ar draws Cymru.

'Am 80 mlynedd, mae gwaith Cymorth Cristnogol wedi bod yn fflam gobaith yn y frwydr yn erbyn tlodi ac anghyfiawnder yn ein byd. Bedwar ugain mlynedd yn ddiweddarach, roedd yn wych bod yn Abaty Westminster gyda chymaint o bobl o Gymru, gan gynnwys disgyblion o ysgolion cynradd St Andrew's Major, Llandaf City, a Wick a Marcross. Fe wnaethon ni ymuno â miloedd o bobl o Brydain ac Iwerddon yn y foment arbennig hon i fyfyrio ac ymrwymo unwaith eto i'r gwaith o roi ffydd ar waith ac o gynnig gobaith i gymunedau sydd ei angen fwyaf.'

# Sasiwn Genhadol Chwiorydd y De 2025



Cynhaliwyd Sasiwn Genhadol y De yng Nghapel Salem, Treganna, Caerdydd, ddydd Iau, 22 Mai. Tro Henaduriaeth Morgannwg Llundain oedd croesawu'r Sasiwn eleni ac estynnwyd croeso cynnes ar ran yr Henaduriaeth ac Eglwys Salem gan Mrs Elsbeth Edwards, oedd yn llywyddu rhan gyntaf y cyfarfod. Eleni penderfynwyd cynnal un cyfarfod ac wrth lunio'r rhaglen sicrhawyd bod cynrchiolaeth o'r tair Henduriaeth yn cymryd rhan yn y cyfarfod. Yr organydd oedd Nia Roblin.

Daeth y Parchedig Carwyn Arthur, Llywydd Cymdeithasfa'r De, ymlaen i ddwyn cyfarchion oddi wrth Gymdeithasfa'r De, i ddymuno'n dda i'r Sasiwn ac i ddiolch am waith y chwiorydd. Derbyniwyd y casgliad a gofynnwyd bendith ar y casgliad a'r defnydd ohono gan y Parchedig Evan Morgan, Gweinidog Salem.

Trosglwyddwyd llywyddiaeth y cyfarfod i Eleri Davies, Llywydd Sasiwn Genhadol y De. Braint oedd croesawu'r siaradwr, sef Dr Cynan Llwyd, Prif Weithredwr Cytûn. Testun ei anerchiad oedd 'Undod mewn Cenhadaeth'. Er yr amrywiaethau, rydym fel canghennau o'r un goeden yn cerdded mewn cenhadaeth gyda'n gilydd i adeiladu teyrnas Iesu.

Y darlleniad a ddewiswyd ganddo ar gyfer y defosiwn oedd hanes Dorcas o lyfr yr Actau. Roedd Dorcas yn tystiolaethu drwy ei bywyd o wasanaeth tawel i nerth yr atgyfodiad. Roedd hi'n gwasanaethu trwy wnïo dillad i'r gweddwon a'r tlodion, ac roedd rhan hanfodol gan Pedr hefyd yn yr hanes gan mai ef oedd yn sefyll ac yn gweddïo.

Cyfeiriodd Cynan at ein gwaith fel chwiorydd fel pe baem yn creu cwilt gyda'n gilydd trwy gydweithio a rhannu ein diddordeb a'n dawn gyda'r nod o wasanaethu. Mae'r cwilt yn ein huno ac yn ymestyn yn eang i gyrraedd eraill. Diolchwyd yn gynnes iawn i Cynan am ei neges a'i anogaeth, a dymunwyd yn dda iddo yn ei swydd ac fel arweinydd Eglwys yr Angor yn ardal Bae Caerdydd, eglwys sydd wedi ei phlannu gan Gapel Ebeneser.

Mae cyfle yn y Sasiwn i goffáu rhai a wasanaethodd yn y maes cenhadol ac a fu farw yn ystod y flwyddyn. Cafwyd coffâd a theyrnged deilwng iawn i Mrs Margaret Jones, Aberystwyth, a fu farw yn ystod yr haf y llynedd, ymhell dros ei chant oed, gan y Parchedig Dafydd Andrew Jones.

Cyflwynwyd amlen yn cynnwys y casgliad eleni i Sarah Morris gan y trysoryddion, Catherine Hughes a Delyth Rees, gan ddiolch i'r eglwysi yn yr Henaduriaethau am eu haelioni arferol er mwyn datblygu'r gwaith cenhadol yma yng Nhymru ac mewn gwledydd eraill.

Mae'r llyfr thema bob amser yn gyfrwng i wneud hyn yn ogystal ac i ddatblygu ein bywyd defosiynol personol. Felly, braint oedd derbyn y llyfr thema newydd *Iesu, yr Atgyfodiad a'r Bywyd* i'n cynorthwyo yn ein cenhadaeth. Diolchwyd i Sarah, Carys ac Eirian am eu gwaith yn paratoi'r holl adnoddau ar ein cyfer ac am yr astudiaethau Beiblaidd bob pythefnos ar Zoom.

Cawsom ein croesawu'n gynnes iawn gan Mrs Margaret Daniel i Sasiwn y flwyddyn nesaf yng Nghapel Blaenannerch yn Henaduriaeth Ceredigion a Gogledd Penfro. Edrychwn ymlaen yn fawr at ddiwrnod bendithiol arall.

Ar ôl i'r Llywydd gyflwyno'r diolchiadau, daeth y Sasiwn i ben gyda gweddi a offrymwyd gan Thomas Ellis Williams, Arweinydd Capel Heol y Crwys.

Gwahoddwyd ni i'r festri ar gyfer y te ac fel arfer roedd gwledd o fwyd blasus wedi ei baratoi ar ein cyfer. Roedd cyfle i gymdeithasu â ffrindiau hen a newydd o wahanol rannau o'r wlad a chasglu ein llyfrau thema. Diolchwyd i chwiorydd Salem am y te ardderchog a'r croeso, ac i'r Parchedig Evan Morgan a swyddogion Salem am ein croesawu i gynnal y Sasiwn Genhadol yno eleni.

Diolch i bawb a gyfranodd mewn unrhyw fodd at lwyddiant y Sasiwn.

Trown ein golygon at yr Encil ar 25 Medi, pryd y bydd y Parchedig Aneurin Owen yn ein harwain, ac mae'n sicr y cawn ein ysgogi i gynorthwyo Manipur trwy gefnogi Apêl y Llywydd.

Wrth ymadael, roedd geiriau'r emyn olaf o waith J. D. Vernon Lewis yn rhoi gobaith ac anogaeth i ni:


Saif ein gobaith yn yr Iesu,
Brenin nef, goleuni'r byd
... gwneler ni
fyth yn dystion gwir i ti.

*Eleri Davies*



# Llyfr y Pregethwr

**Yn ystod y tymor hwn byddwn yn astudio Llyfr y Pregethwr gyda'n gilydd dan arweiniad y Parch. Ddr Alun Tudur, gan ddefnyddio cyfrol y diweddar Gareth Lloyd Jones, *Dehongli Bywyd Ruth a Llyfr y Pregethwr* yn ganllaw.**




**Astudiaeth 18: Achos ac effaith**

**Llyfr y Pregethwr 10:8–20**
Yma, mewn nifer o gasgliadau annibynnol o ddywediadau, mae'r Pregethwr yn canolbwyntio ar y cysylltiad rhwng achos ac effaith, fel: 'Y mae'r un sy'n cloddio pwll yn syrthio iddo' (10:8). Mae'r syniad o gael eich dal yn eich magl eich hun yn thema gyson o fewn Llên Ddoethineb: 'Bydd yr un sy'n camarwain yr uniawn i ffordd ddrwg yn syrthio ei hun i'r pwll a wnaeth' (Diarhebion 28:10; gw. Diarhebion 26:27; Salmau 7:15; 9:15; 35:7–8).

**Yn y gwaith**
Ond o fewn rhestr y gorchwylion cyffredin – cloddio pwll, chwalu clawdd a symud cerrig – nid oes awgrym o fwriad drwg. Y neges syml yw bod angen cymryd pwyll wrth wneud gwaith peryglus. Os yw trap yn cau ar yr un a'i gwnaeth, neidr yn brathu wrth i amaethwr chwalu ei nyth, a.y.b., nid ar Dduw na neb arall y mae'r bai ond ar y gweithiwr ei hun. Diffyg gofal sydd i gyfrif am bob anffawd a ddaw i'w ran. Byddai parodrwydd i dderbyn hyfforddiant mwy trylwyr yn ei grefft wedi ei achub gan fod 'medr yn dod â llwyddiant' (10:10).

**Geiriau**
Yn y casgliad nesaf (10:12–15), mae'r Pregethwr yn troi at werth a pheryglon geiriau. Gwerthfawrogir geiriau'r doeth am eu bod yn creu cytgord rhwng cymdogion; ond mae'r ffôl yn ei ddifa'i hun am na fedr reoli ei dafod. Er iddo barablu'n ddi-baid, mae'n dechrau ac yn diweddu pob sgwrs 'mewn ynfydrwydd llwyr' am nad yw'n gwybod pryd i dewi.

**Gwleidyddiaeth**
Gwleidyddiaeth yw pwnc rhan olaf y bennod (10:16–20). Cyferbynnu gwlad hapus â gwlad anhapus a wneir yn adnodau 16 a 17 drwy sylwi fod urddas ac ymddygiad llywodraethwr yn dylanwadu ar deyrnas gyfan: 'Gwae di, wlad, pan fydd gwas yn frenin arnat'. Gall methiant brenin i gadw rheolaeth ar ei ddeiliaid arwain at ansefydlogrwydd a diofalwch ymhlith y tywysogion. Yn lle mynd i'w gwaith, esgeulusant eu dyletswyddau trwy dreulio'r bore'n gwledda (gw. Eseia 5:11–12; Diarhebion 31:4–5).

Ond gwyn fyd gwlad pan fydd ei brenin 'yn fab pendefig' (Pregethwr 10:17), ac yntau wedi ei drwytho mewn gwleidyddiaeth o'i ieuenctid. Mae aelodau llys llywodraethwr cymwys yn debygol o'i barchu drwy wledda 'ar yr amser priodol', gan ofalu eu bod yn ymddwyn yn gymedrol er eu lles eu hunain. Nid oes gan y Pregethwr unrhyw wrthwynebiad i fywyd bras yr uchelwyr, cyn belled â'u bod yn cydymffurfio â'r drefn.

Mae'n bosibl y bwriadwyd i'r ddwy ddihareb yn 10:18–19 gynnig sylwadaeth ar yr adnodau blaenorol (16–17). Gellir eu dehongli fel cyfeiriad at yr awdurdodau. Mae'r 'diogi' a'r 'llaesu dwylo' sy'n peri i adeilad fynd â'i ben iddo yr un mor andwyol yn achos teyrnas.

**Arweinwyr diog**
Roedd gan Israel brofiad o swyddogion diegwyddor. Cânt eu barnu'n llym gan y proffwydi am eu segurdod a'u difaterwch. Mae Amos yn lladd ar y pendefigion am 'orwedd ar welyau ifori ... canu maswedd i sain y nabl ... yfed gwin fesul powlennaid', ond heb boeni am ddinistr Joseff' (Amos 6:4–7; gw. Eseia 5:22–3; 28:7–8). Mae'r Pregethwr yn barod iawn i gydnabod fod gwledd a gwin yn 'llonni bywyd' (10:19), ond dyletswydd y cyfranogwyr yw ystyried cost y gwledda, er mwyn i'r arian gael ei wario ar achosion mwy teilwng.

'Paid â chablu Duw, na melltithio pennaeth o blith dy bobl' yw un o orchmynion Cyfraith Moses (Exodus 22:28). Yr oedd perthynas Israel â Duw trwy'r cyfamod ar Sinai yn hawlio parch nid yn unig tuag ato Ef, ond hefyd at y sawl a etholwyd ganddo i arwain ei genedl. Ond nid dyletswydd yr unigolyn i ufuddhau i'r Gyfraith sydd mewn golwg yma yn 10:20. Galwad ydyw yn hytrach i ddefnyddio synnwyr cyffredin ac i sylweddoli pa mor beryglus yw melltithio'r brenin a'r cyfoethog, hyd yn oed allan o glyw pobl eraill, am fod ganddynt ysbiwyr sy'n barod i gario clecs. Mae gair yn debyg i aderyn: unwaith y caiff ei ollwng yn rhydd, mae'n anodd iawn ei ddal.

Mae 'gan y cloddiau glustiau', ac felly'r peth doethaf fydd ymatal rhag beirniadu'r brenin a'i gynghorwyr. Mae hyn yn wir heddiw gan nad oes gan ganran sylweddol o boblogaeth y byd ddewis ond cymryd geiriau'r Pregethwr o ddifrif a pheidio â beirniadu'r awdurdodau os ydynt am osgoi cael eu cosbi fel bradychwyr.

**Be 'dych chi'n feddwl?**
1. Pa enghreifftiau a ddaw i'ch meddwl o rai'n cael, neu wedi cael, eu cosbi am herio'u llywodraeth drwy alw am barch at hawliau dynol a rhyddid i fynegi barn yn gyhoeddus?
2. Trafodwch y syniad fod 'arian yn ateb i bopeth' (10:19).

BBC radio cymru

***Caniadaeth y Cysegr***
**Sul, 29 Mehefin, am 7:30yb a 4:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Trystan Lewis

***Oedfa Radio Cymru***
**Sul, 29 Mehefin, am 12:00yp**
Oedfa dan ofal Tracy Jones, Bangor




Cliciwch ar y poster uchod er mwyn gweld yr adnoddau sydd ar y wefan, neu ewch i www.gair.cymru

# Arddangos Beiblau prin yng Nghymru

## Llyfrgell Genedlaethol Cymru,Aberystwyth – Hengwrt 21 Mehefin–22 Tachwedd

Am y tro cyntaf ers bron i 500 mlynedd, mae Beiblau personol Harri'r VIII a'i brif weinidog, Thomas Cromwell, wedi dod at ei gilydd. Cafodd y copïau hardd hyn eu creu yn 1538 neu 1539, eu hargraffu ar femrwm, a'u lliwio gan rai o artistiaid gorau Ewrop. Maen nhw'n dangos sut roedd gwleidyddiaeth a chrefydd yn gysylltiedig yn ystod y Diwygiad Protestannaidd yn Lloegr.


Dydy'r pâr yma o Feiblau, sydd bellach yn cael eu cadw yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac yng Ngholeg Sant Ioan, Caergrawnt, erioed wedi cael eu harddangos ochr yn ochr o'r blaen. Yn ddiweddar, maen nhw wedi cael eu hastudio'n fanwl fel rhan o brosiect ymchwil o'r enw Hidden in Plain Sight, prosiect wedi'i ariannu gan AHRC, sy'n edrych ar sut roedd llyfrau hynafol yn cael eu defnyddio, eu haddasu a'u parchu. Mae llawysgrifau a llyfrau printiedig eraill o'r un cyfnod o gasgliad y Llyfrgell hefyd yn rhan o'r arddangosfa.

## Cadeirlan Tyddewi – 17 Mehefin–9 Gorffennaf

Am y tro cyntaf erioed bydd argraffiad prin o Feibl William Morgan 1588 yn cael ei roi ar fenthyg i Gadeirlan Tyddewi gan lyfrgell Abaty Westminster yn Llundain a'i arddangos yn gyhoeddus yno.

Dywedodd Deon Abaty Westminster, 'Rydym wrth ein bodd yn cyflwyno'r Beibl hwn ar fenthyg i'r gadeirlan. Rhoddwyd y Beibl i'r Abaty gan William Morgan ei hun, a oedd wedi cymryd at y gwaith o lywio'r Beibl drwy'r wasg yn Llundain. Wrth iddo oruchwylio'r gwaith hwnnw fe fu'n lletya gyda'i gyfaill Gabriel Goodman, cyd-Gymro a Deon Wesminster ar y pryd.






'Fel arwydd o ddiolchgarwch, cyflwynodd Morgan gopi o'r Beibl oedd newydd ei argraffu i lyfrgell yr Abaty gan ysgrifennu cyflwyniad personol mewn Lladin ar yr wynebddalen i gofnodi'r rhodd. Mae'r Beibl wedi bod yng nghasgliad yr Abaty oddi ar hynny, a heb fod erioed yng Nghymru.'

Ychwanegodd Tony Trowles, llyfrgellydd yn Abaty Westminster, 'Mae'r Beibl wedi bod yn ein llyfrgell o'r dechrau, ac mae mewn cyflwr eithriadol o dda.'

O blith y 900 copi gwreiddiol, mae'r rhan fwyaf wedi dioddef o ganlyniad i ddefnydd cyson. Esboniodd y byddai'r Beiblau yn eglwysi Cymru a rhannau o Swydd Henffordd yn cael eu clymu â chadwyn fetel i silffoedd arbennig rhag iddyn nhw gael eu dwyn. Aeth ymlaen i ddisgrifio'r broses argraffu fel un 'hynod gymhleth a thechnegol, a rhwystredig hefyd gan na allai'r argraffwyr ddeall y Gymraeg'.

Wedi ei rwymo mewn lledr dros fyrddau pren, fe gafodd ei ddefnyddio unwaith mewn gwasanaeth yn eglwys Anglicanaidd St Bened, Paul's Wharf, eglwys sy'n gysylltiedig â'r gymuned Gymreig yn Llundain, mewn gwasanaeth arbennig i nodi 400 mlwyddiant cyhoeddi Beibl William Morgan a chyflwyno'r Beibl Cymraeg Newydd ar y pryd.

Galwodd y Parch. Dorrien Davies, Esgob Tyddewi, ef 'yn drysor arbennig': 'Edrychwn ymlaen at ei arddangos yma cyn iddo ddychwelyd i'r abaty, i'w rannu gyda Christnogion o bob traddodiad yng Nghymru. Y mae Beibl Cyssegr-Lan 1588 yn drysor unigryw a gwerthfawr inni o ran ein treftadaeth ffydd ac iaith.'

Gwnaed y sylwadau wrh gyflwyno'r Beibl a'i drafod mewn cynhadledd a drefnwyd gan Gymdeithas Archifau, Llyfrgelloedd a Chasgliadau Cadeirlannau cyn cael ei arddangos i'r cyhoedd yng Nghadeirlan Tyddewi rhwng 17 Mehefin a 9 Gorffennaf.

## Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru yn cyhoeddi gwelliannau cyffrous i gyfoethogi profiad ymwelwyr i Dŷ Mawr Wybrnant

Mae Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru wedi cyflwyno newidiadau cyffrous yn Nhŷ Mawr Wybrnant gyda'r nod o wella'r profiad ar gyfer ymwelwyr i'r safle hanesyddol.

Ffermdy o'r 16eg ganrif yw Tŷ Mawr yn nyffryn Wybrnant, ger pentref Penmachno, Conwy, a dyma fan geni'r Esgob William Morgan a gyfieithodd y Beibl i'r Gymraeg gan ddefnyddio iaith gyfoethog, glir.

(parhad ar y dudalen nesaf)

## *Arddangos Beiblau prin yng Nghymru*

*(parhad o dudalen 7)*

Roedd cyhoeddi'r *Beibl Cyssegr-lan* yn 1588 yn un o'r digwyddiadau pwysicaf yn hanes Cymru ac mae'n parhau i ysbrydoli pobl, mudiadau, a chymunedau ledled Cymru. Mae'n symbol pwerus o hunaniaeth Gymreig a goroesiad y Gymraeg, ar lafar, mewn print ac ar-lein.

Mae'r prosiect wedi canolbwyntio ar wella mynediad a dehongli'r safle, yn ogystal â gwella dealltwriaeth o gasgliad Beiblau Tŷ Mawr a chwblhau gwaith cynnal a chadw hanfodol i fynd i'r afael â dŵr a oedd yn mynd i mewn i'r ffermdy.

Mae'r ystafell arddangos, a elwir 'Y Llyfrgell' bellach, wedi'i lleoli gerllaw'r prif ffermdy ac yn cynnig profiad arbennig i ymwelwyr. Yno, mae 'pod cerdded i mewn' hardd, a ysbrydolwyd gan y paentiad o Sant Sierôm (cyfieithydd Beibl Lladin y Fwlgat) yn ei Fyfyrgell, wedi'i greu er mwyn dathlu cyfieithiad William Morgan o'r Beibl. Mae'r gofod unigryw hwn, sy'n ystafell o fewn ystafell, yn fframio'r weithred o ddarllen, a bydd yn gartref i gasgliad o Feiblau mewn gwahanol ieithoedd, gan gynnwys rhai y gall ymwelwyr ymdrin â nhw mewn ffyrdd rhyngweithiol.

Mae dehongliad cyfoes o'r llythrennau Gothig a geir ym Meibl Cymraeg 1588 wedi'u creu yn arbennig i roi darlun bywiog o rai adnodau dethol ac wedi'u hysgythru ar ddodrefn a gwrthrychau o fewn y Llyfrgell. Ategir at y rhain gan fanylion cywrain eraill megis yr addurniadau gwydr, marciau silff caligraffig, canllawiau rhwymo canoloesol modern, a deunyddiau panel sydd wedi'u hysbrydoli gan dirwedd Cymru.

Y tu mewn i'r ffermdy ei hun, mae'n fraint i ni groesawu un o gopïau gwreiddiol Beibl Cymraeg 1588 yn ôl i Dŷ Mawr Wybrnant. Mae'r Beibl wedi'i arddangos mewn cas pwrpasol newydd sbon ar y llawr gwaelod, gan roi'r cyfle i bawb weld yr eitem hanesyddol hon.

Mae'r llawr cyntaf yn gartref i gasys arddangos fydd yn cynnwys detholiad o Feiblau eraill o'r casgliad. Arddangosir y rhain ochr-yn-ochr â thestunau llawn dychymyg, gyda diolch i weithdai ymchwil creadigol gyda disgyblion o Ysgol Uwchradd Dyffryn Conwy, dan arweiniad yr Athro Angharad Price o Brifysgol Bangor. Dewisodd pob disgybl Feibl, gan ymateb iddo â'u pum synnwyr i ddiffinio'i gymeriad unigryw cyn dychmygu'r daith y bu'r Beibl arni i gyrraedd Tŷ Mawr, yn ogystal â phwy roddodd y Beibl a pham.

Mae ymchwil i arwyddocâd casgliad Beiblau Tŷ Mawr, a wnaed gan yr awdur a'r ymchwilydd Hedd ap Emlyn ynghyd â Ryan Comins, myfyriwr PhD ym Mhrifysgol Caergrawnt, yn rhoi cipolwg gwerthfawr ar y modd y mae'r casgliad, yn ogystal â gwaith William Morgan, yn cydblethu i'r darlun ehangach o gyfieithu'r Beibl. Mae'r ymchwil wedi helpu i roi cyd-destun i'r straeon y tu ôl i'r rhoddion ac wedi bod o gymorth wrth nodi lle mae bylchau yn y casgliad Beiblau.

Dywedodd Tatiana von Preussen o benseiri vPPR:

'Rydym wrth ein bodd ein bod wedi cael ein comisiynu gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol i ddylunio cyfres o wrthrychau derw ar gyfer yr arddangosfa a fydd yn galluogi pobl i drin y casgliad Beiblau arbennig hwn.

'Cawsom ein hysbrydoli gan lun enwog Antonello da Messina o Sant Sierôm yn ei Fyfyrgell, lle cafodd ei ddarlunio yn cyfieithu'r Beibl i Ladin. Yna aethom â'r syniad hwn i Dŷ Mawr Wybrnant er mwyn dathlu cyfieithiad yr Esgob Willam Morgan o'r Beibl i'r Gymraeg.

'Rydym wedi ail-greu'r llun enwog ar ffurf myfyrgell wedi'i selio lle gellir rheoli'r lleithder. Bydd yn bosib ymdrin â'r casgliad o Feiblau o'i mewn, a phan fydd ar gau, bydd yn gweithredu fel cas arddangos. Mae cynllun bwa syml y derw plaen hefyd i'w weld yn y gwrthrychau eraill: cadair gyfforddus, sydd hefyd wedi'i hail-greu ar





sail y paentiad, bwrdd derw hir a meinciau yn y llyfrgell y tu allan i'r pod, a set o gasys arddangos fel a geir mewn amgueddfa yn y ffermdy.

(Gellir gweld y llun o Sant Sierôm yng nghasgliad y National Gallery ar y ddolen hon: https://www.nationalgallery.org.uk/paintings/antonello-da-messina-saint-jerome-in-his-study )

Bu'r prosiect yn bosibl o ganlyniad i fuddsoddiad sylweddol o £294,500, oedd yn cynnwys grant o bron i £150,000 gan Sefydliad Wolfson, cyfraniadau gan ymddiriedolaethau elusennol o Gymru, sef Elusen Vronhaul Llandinam ac Ymddiriedolaeth Gaynor Cemlyn-Jones, a chyllid sylweddol gan Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru.

Daeth yr eiddo i ofal yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ym 1951. Yn ystod y 1980au, cafodd y ffermdy ei adnewyddu'n fanwl i adlewyrchu'r arddull Duduraidd wreiddiol o gyfnod William Morgan ac fe'i hailagorwyd yn swyddogol i ymwelwyr yn 1988 i nodi 400 mlynedd ers y cyfieithiad. Mae'r buddsoddiad diweddar hwn yn ddechrau pennod newydd yn hanes cyfoethog Tŷ Mawr.

Mae Tŷ Mawr Wybrnant ar agor ar gyfer tymor 2025 o 10am tan 4pm bob dydd Sul, dydd Llun a dydd Mercher tan ddiwedd mis Medi. Cynhelir digwyddiadau arbennig ar ddydd Sul cyntaf pob mis yn ystod y cyfnod hwn.

Am ragor o wybodaeth am Tŷ Mawr Wybrnant, ewch i www.nationaltrust.org.uk/tymawrwybrnant

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru